Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 336

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Rhodd i Daith Undod yr Heddlu 2024**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae Taith Undod yr Heddlu'n ddigwyddiad beic pedalau elusennol sy'n codi arian ar gyfer Gofalu am Oroeswyr Heddlu'r DU (COPS).
Mae'r digwyddiad yn codi ymwybyddiaeth ac yn anrhydeddu swyddogion heddlu a fu farw wrth gyflawni eu dyletswyddau. Mae swyddogion heddlu o Gymru a Lloegr yn seiclo ar draws y wlad i godi arian ac maent yn ymroddedig i helpu teuluoedd swyddogion heddlu sydd wedi colli eu bywydau pan ar ddyletswydd. Hyd yn hyn mae'r digwyddiad hwn wedi codi dros £1 miliwn, gan gefnogi'n uniongyrchol waith yr elusen a theuluoedd cydweithwyr a fu farw.
Yn y blynyddoedd diweddar, mae nifer o swyddogion mewn swydd o Ddyfed-Powys wedi marw'n drasig, ac mae'r elusen hon wedi darparu cefnogaeth amhrisiadwy i'w teuluoedd.
Bob blwyddyn, mae swyddogion o Ddyfed-Powys yn cymryd rhan yn y Daith ac yn cynrychioli'r Heddlu yn y digwyddiad i godi arian. Eleni bydd derbynnydd uniongyrchol yr elusen hon yn seiclo gyda thîm Dyfed Powys i anrhydeddu ei dad a fu farw'n drist iawn yr haf diwethaf.

**Argymhelliad:**
Argymhellir bod cyfraniad o £1000.00 yn cael ei roi i'r digwyddiad o'r gyllideb Gwerthiant Eiddo a Ganfuwyd.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 20/06/24**